

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mrs Eiddwen Jones (Henllan), Mrs Nia Jones (Llansannan) a Mrs Wenna Edwards (Tanyfron) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli Alun, mab, brawd ac ewythr hoffus. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio eu bod yn adnabod tangnefedd a digon Duw y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, yn dilyn marwolaeth ei dad, cydymdeimlwn ag Aled Ellis (Henllan) a'r teulu i gyd. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd, gan ddeisyf Ei noddod iddynt oll.
- Bu'n rhaid i Edward Jones (Llanefydd) fynd i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, ac yno hefyd y mae Elfed Davies (Saron) yn parhau. Anfonwn ein cofion atynt a gweddiwn y bydd y ddau yn teimlo'n well yn fuan iawn. Cofiwn am eraill sydd heb fod yn dda y diwrnodau hyn hefyd, gan hyderu y byddant hwythau yn profi daioni Duw.
- Dymunwn orau'r nef i Sian Williams (Llanefydd) a Mike ar eu priodas yn Llanefydd dydd Sadwrn nesaf.

Ffurflenni CRB

Gan fod rhaid ail-wirio ar ôl 4 blynedd, bydd nifer ohonoch sy'n ymddiriedolwyr ac/neu'n wirfoddolwyr yn y gwahanol eglwysi wedi derbyn ffurflen Datgeliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i'w llenwi a'i gwirio. Er hwylustod i chi, mae'n fwriad gennym i drefnu noson yn lleol, ddechrau mis Mai, i wirio'r ffurflenni hyn. Caiff y dyddiad ei gyhoeddi'n fuan.

I ddod

- **Oedfa Gymun i'r Fro** yn Saron ar fore'r Groglith, Ebrill 22ain am 10.30.
- **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan: www.llanw.org
- Bydd grwp o gerddorion o Awstralia "**Sons of Korah**" yn canu'r Salmau yn Saesneg yn fyw mewn cyngerdd yn y Venue, Llandudno nos Sadwrn, Ebrill 30ain am 9.45 yr hwyr. Tocynnau: www.sonsofkorah.com

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Ebrill 2011

Sylwch mai nos Fawrth **am 8.00**
o'r gloch y bydd y cyfarfod
cyntaf o'r Pwyllgor Bugeiliol.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso cynnes iawn i chi i oedfaon y dydd. Mae'r gwanwyn yn mynd rhagddo a da yw profi gwres yr haul eto wedi'r gaeaf hir. Mae yna ryw nerth arbennig yn yr haul iddo fedru cynhesu o'r fath bellter... 93,000,000 o filltiroedd os ydw i'n cofio gwersi Mr Selway gynt yn iawn! Mae hynny'n go bell! Eto, heb yr haul, byddai'r byd yn lle gwahanol iawn. Mae holl fwrlwm y byd yn dibynnu i raddau helaeth hefo'n perthynas hefo'r haul a'i rym anhygoel. Cawn ein cynhesu ganddo a'n hoeri hebddo. Cawn wyrddni a lliw y gwanwyn o'i herwydd a llymdra hebddo. Er ei bellter, mae ei ddylanwad arnom yn ddbendraw, a'n dibyniaeth arno bron yn llwyr!

Bu Salm 46 ar fy meddwl llawer yr wythnosau diwethaf yma oherwydd yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y byd yn ddiweddar. Japan, Seland Newydd, Libya, a Gogledd Iwerddon – maent i gyd wedi bod yn destun gweddi i ni, dwi'n siŵr. Beth a glywn yn y Salm am Dduw? Mae'r Salm yn cychwyn trwy ddweud fod "Duw yn noddfa a nerth i ni" a'i fod hefyd yn "gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder".

Nid yw'r Beibl yn disgrifio Duw fel Duw pell ond mae'n disgrifio Duw fel un sy'n anfeidrol ei nerth. Wrth ddweud ei fod yn noddfa ac yn nerth i ni, y mae'n dweud fod nerth Duw yn agos atom. A dweud y gwir, rydym yn byw yn y nerth hwnnw fel y mae cyw yn cysgodi dan yr iar neu fel plentyn bach ym mynwes ei fam. Y mae nerth Duw, a'i gynhaliath a'i agosrwydd i'w deimlo mor ddwfn â hynny.

Roedd Mr Cameron a Mr Clegg yn daer iawn yr wythnos yma eu bod am ddiogelu'r NHS. Roeddent ill dau yn dweud y byddent yn "peidio", "ystyried", "myfyrio", "gweithredu". Roeddent yn ceisio'n perswadio y byddent yn rhoi amser o ddifrif i atal y gwaith o ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd a fyddai'n rhoi cyfle i staff a chleifio ddweud eu barn ac y byddent wedyn, o bosibl, yn newid eu meddwl ynglyn â'r newidiadau arfaethedig! Yn y Salm y mae'r Salmydd hefyd wrth ystyried nerth Duw a'r grym sydd ganddo i ddod ag afon iachawdwriaeth a heddwch i'r byd yn dweud wrthym am "beidio â gwybod mai ef sydd Dduw". Rhan o bob addoliad ydi rhoi amser i ddeall hyn ac i ymdawelu gerbron y Duw nerthol sydd yn ein caru.

Gobeithio y byddwch yn cael blas ar y Gair heddiw ac y bydd yr Arglwydd yn bendithio ei Air yn ein plith. Mwynhewch yr haul!

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00.

Mawrth Cyfarfod cyntaf y **Pwyllgor Bugeiliol** yn Llanefydd **am 8.00**.

Mercher **Darganfod Cristnogaeth** yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.

Cyfarfod Cymdeithasol Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y siaradwr fydd y Parch Emllyn Richards. Lluniaeth: £2.

Gwener **C.I.C.** (Clwb Ieuenticid Cristnogol) a **Sei@** yn mynd i Goleg y Bala erbyn 7.00 i weld Cyflwyniad y Pasg. Cysylltwch hefo Huw (582215) erbyn nos Fawrth er mwyn trefnu lifft.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa yng Nghapel Hyfrydle, Llanfair am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sadwrn "Gang Ni" – gweithgareddau ar gyfer y Pasg i'r rhai oed cynradd yn Ffestri Capel Henllan am 10.00.

Sul nesaf Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau